

Cyfrifiad Blynyddol y Gweithlu Ysgolion (CBGY) Bwletin #5 – Gorffennaf 2019

Mae'r bwletin hwn a gynhyrchwyd gan Lywodraeth Cymru yn rhoi diweddariad ar y datblygiadau diweddaraf o ran CBGY.

4ydd Gorffennaf 2019
Fersiwn: CBGY/05/2019

Cyswllt

Ysgolion:

Os oes gan ysgolion unrhyw gwestiynau am CBGY, dylent gysylltu â swyddog cyswllt System Rheoli Gwybodaeth eu hawdurdod lleol gyntaf.

Awdurdodau Lleol:

Ar gyfer cwestiynau gan awdurdodau lleol am y bwletin hwn neu am CBGY yn gyffredinol, mae croeso i chi gysylltu â ni yn:

Tîm System Rheoli

Gwybodaeth

Ffôn: 03000 625014

IMS@llyw.cymru

Tîm ystadegau gweithlu ysgolion

Ffôn: 03000 625105

Ffôn (Cymraeg): 03000 255968

CBGY.SWAC@llyw.cymru

In this bulletin:

- Dyddiadau Allweddol
- Sbotolau ar: Iaith Gymraeg
- Adnoddau a Datblygiadau
- Digwyddiadau Ymgysylltu

Dyddiadau allweddol:

Cam 1:

Dyddiad cyfrifiad: Dydd Mawrth 5 Tachwedd 2019

Dyddiad cau ar gyfer cyflwyno data: Dydd Mercher 18 Rhagfyr

Data i'w gasglu: cyflwyno data 'cipolwg'

Cam 2:

Tachwedd 2020 (dyddiad cyfrifiad i'w gadarnhau)

Data i'w gasglu: cyfrifiad llawn yn cynnwys data Cam 1 a data o'r gorffennol

Sbotolau ar:

Ym mhob bwletin byddwn yn edrych ar elfennau o'r cyfrifiad mewn mwy o fanylder.

Yr Iaith Gymraeg

Mae yna ddwy eitem data ar yr iaith Gymraeg yn cael eu casglu fel rhan o'r modiwl **Nodweddion y Gweithlu** yn y datganiad data Ysgol.

Yr eitemau i'w casglu yw:

- Gallu yn y Gymraeg
- Addysgu/gweithio drwy gyfrwng y Gymraeg

Dylir mesur gallu yn y Gymraeg yn erbyn y Fframwaith Cymwyseddau Iaith Gymraeg ymarferwyr addysg. Mae'r ddwy eitem yn orfodol ar gyfer pob aelod o'r gweithlu sydd wedi'u cynnwys yn y CBGY.

Gallu yn y Gymraeg

Y cyfres codau ar gyfer gallu yn y Gymraeg yw:

- W1** Dim sgiliau iaith Gymraeg
- W2** Lefel Mynediad
- W3** Lefel Sylfaen
- W4** Lefel Ganolradd
- W5** Lefel Uwch
- W6** Lefel Hyfrededd
- W7** Ni chafwyd yr wybodaeth eto

Dylai pob aelod o'r gweithlu hunanasesu eu sgiliau yn unol â'r fframwaith a chytuno ar lefel gyda'i reolwr llinell. Mae'r fframwaith cymwyseddau iaith Gymraeg wedi'i gyhoeddi gyda'r nodiadau cwblhau technegol ar gyfer y datganiad ysgol ar wefan CBGY ar

<https://llyw.cymru/cyfrifiad-blynyddol-or-gweithlu-ysgolion-cbgy-nodiadau-cwblhau-technegol-ar-gyfer-ffurflenni>

Yr Iaith Gymraeg (parhau):

Addysgu/gweithio drwy gyfrwng y Gymraeg

Y gyfres codau ar gyfer 'Addysgu/gweithio drwy gyfrwng y Gymraeg' yw:

T1	Addysgu/gweithio drwy gyfrwng y Gymraeg yn y swydd bresennol
T2	Yn gallu addysgu/gweithio drwy gyfrwng y Gymraeg ond ddim yn gwneud hynny yn y swydd bresennol
T3	Ddim yn gallu addysgu/gweithio drwy gyfrwng y Gymraeg
T4	Yn addysgu'r Gymraeg fel pwnc yn unig (*ar gyfer athrawon sy'n addysgu hyd at flwyddyn 6 y Cwricwlwm Cenedlaethol yn unig)

Hefyd, bydd gwybodaeth ar ba gyfrwng iaith mae gwersi yn cael eu haddysgu (h.y. Cymraeg, Saesneg neu ddwyieithog) yn cael ei gasglu fel rhan o'r modiwl **Cwricwlwm**.

Bydd y data yn galluogi ysgolion, consortia rhanbarthol a Llywodraeth Cymru i gael dealltwriaeth well o sgiliau iaith Gymraeg ymarferwyr er mwyn gallu cynllunio dysgu proffesiynol i sicrhau datblygiad sgiliau yn unol â'r Safonau Proffesiynol priodol. Hefyd, bydd y data yn rhoi dealltwriaeth well i ni o gapasiti y sector cyfrwng Cymraeg i liwio cynllunio'r gweithlu i gyrraedd targedau Cymraeg 2050.

Mae Llywodraeth Cymru yn gweithio ag arweinwyr iaith Gymraeg y consortia rhanbarthol i roi cymorth ar sut i gofnodi ac adrodd y wybodaeth ar sgiliau iaith Gymraeg.

Adnoddau a datblygiadau

Gwefan CBGY: Mae gennym wefan newydd ar gyfer CBGY:

<https://llyw.cymru/cyfrifiad-blynyddol-or-gweithlu-ysgolion-cbgy>.

Mae'r holl ddogfennau diweddaraf ar gyfer y CBGY ar gael ar y wefan, gan gynnwys, nodiadau cwblhau.

Hysbysiad Preifatrwydd a Nodiadau Cwblhau Technegol: Mae'r hysbysiad preifatrwydd a nodiadau cwblhau technegol wedi'u gorffen a'u cyhoeddi ar y wefan CBGY. Mae yna 2 fersiwn o'r nodiadau cwblhau ar gyfer y datganiad data Ysgol a'r datganiad data Cyflogau, Adnoddau Dynol ac Absenoldebau

Mae'r hysbysiad preifatrwydd, ynghyd â rhestr o'r eitemau i'w casglu, ar gael yma: <https://llyw.cymru/cyfrifiad-blynyddol-or-gweithlu-ysgolion-cbgy-hysbysiad-preifatrwydd>

Mae'r nodiadau cwblhau technegol ar gael ar y dolenni canlynol:

- Nodiadau cwblhau ar gyfer y datganiad Ysgol: <https://llyw.cymru/cyfrifiad-blynyddol-or-gweithlu-ysgolion-cbgy-nodiadau-cwblhau-technegol-ar-gyfer-ffurflenni>
- Nodiadau cwblhau ar gyfer y datganiad Cyflogau, Adnoddau Dynol ac Absenoldebau: <https://llyw.cymru/cyfrifiad-blynyddol-or-gweithlu-ysgolion-cbgy-nodiadau-cwblhau-technegol-ar-gyfer-cyflogau-adnoddau>

Digwyddiadau Ymgysylltu

Peilot CBGY: Yn dilyn ein e-bost ar 7 Mehefin, mae 7 awdurdod lleol wedi gwirfoddoli i gymryd rhan ym mheilod CBGY. Rydym wedi cytuno i ddefnyddio Dydd Mawrth 9 Gorffennaf fel y diwrnod cyfrifiad dymi ar gyfer y peilot. Mae'r peilot wedi'i amserlennu gyda'r bwriad i orffen rhan fwyaf o'r gwaith cyn dechrau'r flwyddyn academaidd newydd ac i sicrhau bod darparwyr meddalwedd ag eraill er mwyn gwneud unrhyw ddatblygiadau pellach os oes angen.

- **9 Gorffennaf 2019:** Dydd cyfrifiad (ond wedi'i gofnodi fel 5 Tachwedd 2019 yn yr XML)
- **9 Gorffennaf 2019 i 9 Awst 2019:** Cyfnod casglu'r peilot
- **12 Awst 2019 i 23 Awst 2019:** Llywodraeth Cymru yn adolygu'r peilot
- **26 Awst 2019 i 6 Medi 2019:** Profi peilot pellach (os oes angen)
- **9 Medi 2019 i 13 Medi 2019:** Llywodraeth Cymru i adolygu ail gyfnod y prawf peilot (os oes angen)

Bydd gwybodaeth bellach am drefniadau'r peilot yn cael eu hanfon i awdurdodau lleol sy'n cymryd rhan cyn diwedd yr wythnos.

Trafodaethau ag awdurdodau lleol: Rydym yn y broses o drefnu sgysiau â phob awdurdod lleol i drafod datblygiadau ac i helpu ag unrhyw broblemau sy'n codi cyn y peilot. Os ydych wedi cael cyfarfod â Llywodraeth Cymru ond â chwestiynau pellach, neu eich bod yn aros am gyfarfod i'w drefnu, cysylltwch â'r blychau e-bost CBGY neu IMS

Hefyd, rydym yn cynnal sgysiau â chyflenwyr meddalwedd sydd â diddordeb yn natblygiadau CBGY a byddwn yn rhannu manylion o'r trafodaethau perthnasol.

Beth nesaf

Os oes yna unrhyw eitemau hoffech weld mewn bwletin yn y dyfodol gadewch i ni wybod at: IMS@llyw.cymru neu CBGY.SWAC@llyw.cymru.

Disgwylir cyhoeddi'r bwletin hwn bob mis wrth i ni agosáu at y cyfrifiad.

Copïau ychwanegol:

Gellir cyrchu'r ddogfen hon ar [dudalennau Fforwm Datblygu Meddalwedd DEWj](#).